

CYMORTH TAI CWM TAF MORGANNWG

AROLWG DEFNYDDIWR GWASANAETH 2020

Ystyried ymatebion y rheini sydd yn byw'r profiad

Mae'n safbwyntiau'n bwysig!



Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol

Pwysigrwydd gofyn i bobl beth y maent hwy'n ei feddwl

Mae'r hyn y mae pobl yn meddwl am y cymorth y maent yn eu derbyn yn bwysig. Mae timau Cymorth Tai Cwm Taf Morgannwg a'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol bob amser yn falch i glywed gan bobl sydd wedi cyrchu gwasanaethau cymorth tai sy'n cael eu hariannu gan grantiau.

Mae'r cyllid ar gyfer y cymorth hwn yn dod o'r Grant Cymorth Tai sydd yn ceisio sicrhau: "*Cymru lle nad oes neb yn ddigartref ac mae gan bawb gartref diogel lle y gallant ffynnu a byw bywydau llawn, gweithgar ac annibynnol,*"

Daw'r sawl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn sydd yn cael eu hariannu trwy'r cynllun grant o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd ac maent yn derbyn cymorth ar amrywiaeth o faterion. Mae'r cymorth y maent yn ei dderbyn yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ceisio cynorthwyo unigolion i sicrhau a chynnal tai sydd yn gynaliadwy gan ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

Mae pwysigrwydd mawr yn cael ei roi ar ymgysylltu â phobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau naill ai fel ymestyniad cynhwysol i'r gwasanaeth cymorth neu fel rhan o broses asesiad anghenion strategol Cwm Taf Morgannwg. Mae'n cael ei dderbyn fod unigolion sydd yn derbyn gwasanaethau yn arbenigwyr arnynt; maent wedi eu byw a'u profi ac maent yn y sefyllfa orau i wybod beth sy'n gweithio, beth nad sydd yn gweithio a pha welliannau y dylid eu gwneud.

Ar y cyd ag ymgynghoriadau eraill sydd yn cael eu gweithredu ar lefel leol mae'r arolwg defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo ac anogir darparwyr gwasanaeth i hyrwyddo a galluogi'r unigolion y maent yn eu cynorthwyo i gwblhau'r holiadur.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r ymatebion a dderbyniwyd i arolwg ymgynghoriad defnyddiwr gwasanaeth 2020. Cafodd yr arolwg ei ddsbarthu'n eang yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2020 a chafodd y cwestiynau canlynol eu gofyn:

C1 Ym mha ardal o Gwm Taf Morgannwg yr ydych chi'n byw?

C2 Pa fath o wasanaeth ydych chi'n ei dderbyn?

C3 Dywedwch wrthym sut yr ydych wedi derbyn cymorth yn ystod y misoedd diwethaf?

C4 Dywedwch wrthym, mewn rhai geiriau'n unig am eich profiad o dderbyn cymorth yn ystod y cyfnod clo ac yn ystod y misoedd diwethaf?

C5 Dywedwch wrthym sut y byddech yn hoffi derbyn cymorth yn y dyfodol?

C6 A oedd hi'n hawdd i chi dderbyn cymorth?

C7 Pa weithgareddau yr ydych wedi derbyn cymorth yn eu gwneud?

C8 A oedd unrhyw weithgareddau y byddech wedi hoffi derbyn cymorth yn eu gwneud ond nad oedd y darparwr cymorth yn medru eu cynnig?

C9 A ydych chi'n credu fod unrhyw rwystrau ar gyfer pobl sydd angen cymorth tai?


C10 A oes unrhyw beth allai gael ei wella am y cymorth yr ydych wedi ei dderbyn?

C11 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi eu gwneud ynghylch eich gwasanaeth cymorth?

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd


Cafwyd ymatebion gan 66 o bobl i'r holiadur.

Cwestiwn 1:



Cafwyd ymatebion gan bobl ifanc sydd yn cyrchu gwasanaethau ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghwm Taf Morgannwg.

Cwestiwn 2:



Roedd y nifer fwyaf o'r unigolion a holwyd yn derbyn cymorth fel y bo'r angen neu gymorth tenantiaeth h.y. cymorth sy'n cael ei ddarparu yn eu cartrefu. Mae'r sawl a ymatebodd i ddweud eu bod yn byw mewn tai a gynorthwyir yn cynnwys y rheini sydd yn byw mewn llety lle y mae cymorth ar y safle, fel mewn hosteli. Roedd y nifer lleiaf o ymatebion gan

unigolion sydd yn byw mewn llety dros dro sydd yn cynnwys llety gwely a brechwast a mathau eraill o lety mewn argyfwng. Mae'r nifer fwyaf o wasanaethau sydd ar hyn o bryd yn cael eu comisiynu yng Nghwm Taf Morgannwg yn wasanaethau cymorth fel y bo'r angen.

Cwestiwn 3:

Mae galwadau rhithiol yn cynnwys e. e. Messenger, Facetime, Whats ap

Mae'n gadarnhaol fod 46% o'r sawl a holwyd wedi derbyn peth cymorth wyneb yn wyneb.

Cwestiwn 4:

Dywedwch wrthym mewn rhai geiriau am eich profiad o dderbyn cymorth yn ystod y cyfnod clo ac yn ystod y misoedd diwethaf.

Gofynnwyd am y profiad o dderbyn cymorth yn ystod y cyfnod clo. Roedd unigolion, yn gyffredinol yn teimlo eu bod wedi derbyn cefnogaeth dda gan eu gweithwyr cymorth ac roedd y galwadau ffôn rheolaidd a'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gymorth i wella unigrwydd y cyfnod clo. Roedd yn glir, o'r ymatebion faint o wahaniaeth y mae cymorth tai wedi ei wneud.

Roedd unigolion, yn gyffredinol yn teimlo eu bod yn hawdd cysylltu â'u gweithwyr cymorth. Roedd y cymorth ar gael ac roedd y cyswllt rheolaidd yn "gymorth gan Dduw" ac yn llinyn bywyd. Roedd yn glir i'r cymorth rheolaidd a'r cyswllt gynorthwyo nifer fawr o ymatebwyr i gynnal eu hiechyd meddwl a thorri ar yr ynysrwydd a'r unigrwydd. Yn ôl un unigolyn; "Ni fyddwn wedi gallu ymdopi heb eich cymorth trwy'r cyfnod clo ac rwy'n teimlo na fyddwn yma yn awr heb eich cymorth."

Teimlodd rhaid bod eu gweithwyr cymorth wedi rhagori ac wedi mynd y filltir ychwanegol i'w cynorthwyo a hynny mewn amodau anodd:

- Cafod unigolion mewn llety dros dro eu cynorthwyo â budd-daliadau, hawliau rhent, talebau bwyd, anghenion tai, mynediad i eiddo rhentu preifat, hawliau rhent a thai cymdeithasol.
- Cafodd unigolion a oedd yn eu cael hi'n anodd ysgrifennu a darllen cymorth i gwblhau ffurflenni a deall llythyron a gohebiaeth.
- Cafodd unigolion â phroblemau tai eu hannog a'u cynorthwyo i gwblhau ffurflenni cais, gwneud cais am eiddo a'u cynorthwyo i symud i lety hirdymor, mwy cynaliadwy.


- Cafod unigolion a oedd angen cartref newydd eu cynorthwyo i gyrchu hyfforddiant a oedd yn eu caniatáu i gamu ymlaen â Symud Ymlaen.
- Cafodd unigolion fudd o gymorth o amgylch y cloc gan y prosiect yr oeddent yn rhan ohono.
- Cafodd unigolion gymorth i adfer wedi llifogydd a derbyn eitemau fel gwely a dillad gwely.
- Cafodd unigolion eu cynorthwyo i gyrchu apwyntiadau iechyd a meddyginiaeth trwy eu fferyllfa leol.
- Derbyniodd unigolion barseli bwyd a'u cynorthwyodd i oresgyn y cyfnod clo.

Mae'r cwmwl geiriau canlynol yn darparu trosolwg o nifer fawr o'r ymatebion cadarnhaol a dderbyniwyd:



Llwyddodd rhai gwasanaethau cymorth i ddod o hyd i ffyrdd dyfeisgar o ddarparu cymorth a derbyniwyd yr ymdrechion hyn yn brofiadau cadarnhaol gan y rheini a oedd yn ymateb i'r holiadur.


Roedd yr anawsterau a brofodd unigolion yn ystod y cyfnod hwn yn gysylltiedig â'u sgiliau digidol neu eu diffyg mynediad i dechnoleg. Roedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys:

- 
- Mae angen cyfrifiadur a'r rhyngwrwd ar bob dim a does gen i mohonynt. Mae wedi gwneud cyflawni pethau'n anodd.'
 - 'Roedd yn anodd dod i arfer â'r cyfrifiadur. Nid wyf yn gallu darllen nac ysgrifennu. Rwy'n ddibynnol ar gymorth i fy nghynorthwyo drwy'r cyfnod hwn.'
 - Nid wyf yn hoffi technoleg a negeseuon testun. Mae'n well gen i alwadau ffôn.'
 - Fedra'i ddim defnyddio technoleg felly mae fy ngweithiwr cymorth yn fy ffonio.'
 - Galla'i ddim defnyddio technoleg. Mi fyddai'n dychwelyd i fod wyneb yn wyneb pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.
 - 'Nid wyf yn deall y rhyngwrwd'
 - Ni allaf ddarllen nac ysgrifennu ac nid oeddwn yn gallu gwneud galwadau rhithiol.'
 - Doeddwn methu defnyddio'r app facetime ar fy ffôn.'
 - 'Does gen i ddim camera ar fy ffôn.'

Yn ôl un person, roedd y galwadau ffôn yn dda ond "Nid oes gen i fand llydan a galla'i ddim rhoi llawer o gredyd ar fy ffôn." Dywedodd rhywun arall, "I mi, mae wedi bod yn anodd gan fy mod yn ei chael hi'n anodd siarad ar y ffôn ond mae pawb wedi gwneud eu gorau."


Roedd anawsterau eraill yn gysylltiedig, yn bennaf â pheidio derbyn cymorth wyneb yn wyneb. Dywedodd 12 unigolyn eu bod wedi gweld eisiau peidio gweld eu gweithiwr cymorth.

Cwestiwn 5:



Yn unol â'r cwestiwn blaenorol a dynnodd sylw at anawsterau cyrchu cymorth yn ddigidol, roedd unigolion am dderbyn cymorth yn y dyfodol, naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy gyfuniad o hyn.


Cwestiwn 6:



Y rhesymau a roddwyd gan y rheini a oedd yn eu cael hi'n anodd derbyn cymorth:

- Rwy'n dioddef o iselder
- Dywedwyd wrthyf fod rhestr aros hir
- Roedd yr Adran Tai yn fwy anodd i gysylltu ag ef na'r gwasanaethau eraill
- Pan roeddwn yn ceisio dod o hyd i gymorth cychwynnol, doedd hynny ddim yn hawdd
- Cyn hyn, roeddwn yn byw yn Kerrigan, lle yr oedd hi'n anodd. Rwy'n ei ffeindio hi'n hawdd yn awr.
- Mae'n anodd derbyn cymorth gan rhai lleoedd fel banciau a deintyddion.
- Roed hi'n anodd a phrofais lawer o ymladd ac anghydweld gartref.
- Rwyf am gael fy ailgartrefu mewn llety y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei gynorthwyo.
- Roeddwn yn ei chael hi'n anodd felly ffoniais fy ngweithiwr cymorth a dechreuodd roi cymorth i mi eto.

Cwestiwn 7:



Roedd nifer o'r unigolion a ymatebodd yn derbyn cymorth gan ardaloedd deilliant y grant cymorth tai cyfredol. Nid yw'n rhyfeddod mai'r elfennau y derbyniwyd y lleiaf o gymorth oedd cyflogaeth/gwaith gwirfoddol neu ymgysylltu mewn addysgu/dysgu. Cyfyngwyd ar y meysydd hyn yn fawr yn ystod y cyfnod clo ac roedd nifer o asiantaethau neu sefydliadau addysgol ar gau neu roedd eu horiau agor wedi eu cyfyngu. Roedd rheoli arian a rheoli llety yn feysydd lle y derbyniodd y nifer fwyaf o unigolion gymorth â hwy. Roedd problemau iechyd meddwl yn heriol ac roedd unigolion yn eu cael hi'n anodd ymdopi ag unigrwydd, ofn a thrawma.


Cwestiwn 8:

A OEDD UNRHYW WEITHGAREDDAU Y BYDDECH WEDI HOFFI DERBYN CYMORTH YN EU GWNEUD?




A oedd unrhyw weithgareddau y byddent wedi hoffi cael cymorth yn eu gwneud ond nad oedd y darparwr cymorth yn gallu gwneud hynny?

Ar y cyfan, derbyniodd unigolion y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Mae'r gweithgareddau y byddent wedi hoffi derbyn cymorth â hwy ond nad oedd y darparwr cymorth yn medru eu cynnig yn cael eu rhestru isod:



Cwestiwn 9:

OES UNRHYW RWYSTRAU I BOBL SYDD AM DDERBYN CYMORTH TAI?



- Rwy'n credu i'r rheolau diogelu data wneud pethau'n fwy anodd. Byddai fy ngweithiwr cymorth yn dod 'nôl ataf ac yn dweud ei fod wedi trio ond bod angen i mi siarad â'r unigolyn. Roedd yn anodd.
- Byddwn yn hoffi i'r panel symud ymlaen â'r broses o ddod o hyd i gartref i ni a'n galluogi i symud ymlaen ynghynt gan ein bod yn barod i fyw'n annibynnol.
- Roedd hi'n anodd i mi gyrchu cymorth cyfreithiol - cefais fy atgyfeirio at y Gwasanaeth Cymorth ar Bopeth ac yna at rywun arall. Doedd dim cymorth ar gael i mi.
- Nid oes digon o leoliadau llety dros dro.
- Oes, mae yna rwystrau ond mae'n fwy i wneud â chyllid a'r llywodraeth.
- Byddwn wedi hoffi cymorth i fod yn rhan o'r gymuned ond yn sgil cyfyngiadau Covid, doedd dim modd gwneud hyn.
- Mae angen cymorth Seicolegol arnaf ond rwyf wedi cael fy atgyfeirio at Ddoctor Teulu.

Cwestiwn 10:

Oes unrhyw beth allai gael ei wella am y cymorth yr ydych yn ei dderbyn?



Yn ôl 55, allan o 68 o ymatebwyr, doedd dim y gellid fod wedi gwella arno. Dywedodd 10 unigolyn y byddai cymorth wyneb yn wyneb wedi gwella'r gwasanaeth. Roedd gwelliannau eraill yn cynnwys ariannu rhagor o weithwyr cymorth neu staff a rhoi mwy o arian i wasanaethau.

Cwestiwn 11 Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am eich gwasanaeth cymorth?

Mae 51 o bobl yn gwneud sylwadau ar y cwestiwn hwn

- Da, chwarae teg
- Cefnogaeth dda
- Gwasanaeth defnyddiol
- Bendith Duw arnoch am eich gwaith caled
- Rwy'n hoffi'r gwasanaeth hwn
- Mae fy ngweithiwr cymorth yn dda iawn
- Mae'r staff yma'n dda iawn gyda ni
- Rwy'n symud ymlaen yma
- Nid oes angen unrhyw welliant
- Mae'r staff yn dda iawn yma
- Hapus iawn â'r cymorth
- Gwasanaeth cymorth da iawn. Rhagorol.
- Mae'r staff yn gwneud pod dim sydd angen iddynt.
- Rwyf wir yn gwerthfawrogi pob dim yr ydych wedi eu gwneud i fy helpu.
- Rwy'n ei chael hi'n anodd cyd-dynnu â'r mwyafrif o bobl, o achos fy iechyd meddwl. Na, dim angen gwelliant.

- Mae'r staff yn wych. Gallwn ddim bod wedi gofyn am well cymorth. Maent yn fy rhoi yn ôl ar y llwybr cywir.
- Mae derbyn cymorth wedi bod yn help ac mae cael cysylltiad rheoliad wedi gwneud gwahaniaeth.
- Mae'r gweithiwr cymorth yn rhoi'r holl gymorth ag y gall yn ystod y cyfnod anodd hwn

Ac mae llawer, llawer mwy. . . .

Hoffai Timau Cymorth Tai Cwm Taf Morgannwg a'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, ddiolch i bawb am roi o'u hamser i gwblhau'r arolwg blynyddol hwn.



Dyma hanesion cryno gan unigolion sydd wedi derbyn cymorth yng Nghwm Taf Morgannwg:

E *Roeddwn yn ddigartref ar y stryd a phan sylweddolais fy mod yn feichiog, symudais i lety rhentu preifat. Nid oedd fodd i mi gael tŷ cyngor gan fodd gennyf nifer fawr o ôl ddyledion a dyledion. Roedd yr eiddo y symudais i mewn iddo mewn cyflwr ofnadwy ond gwnes ymdopi gan nad oedd gennyf unrhyw le arall i fynd. Roedd fy merch yn awr yn flwydd oed ac roedd y tamprwydd a'r llwydni yn effeithio ar ei hiechyd. Roeddwn yn teimlo'r straen ac yn ofnus o hyd. Cafodd yr eiddo ei gondemnio gan iechyd yr amgylchedd ac roedd rhaid i mi symud oddi yno. Roedd fy Ngweithiwr yn wych a daeth o hyd i eiddo i ni a oedd yn agos at fy nheulu. Siaradodd â'r landlord a fy helpu â grantiau a'r holl waith papur. Cefais gymorth ganddi i drefnu'r nwy a'r trydan a gwneud cais am gynllun dŵr hyd yn oed. Cawsom gymorth i gael dodrefn gan fod yr hyn a oedd gennyf wedi cael eu dinistrio yn y lle diwethaf o ganlyniad i'r tamprwydd. Rwyf yn awr wedi setlo mewn lle gwell ac mae gen i gynllun tabu y gallaf ei fforddio. Er mai fy mhroblemau i oeddent, llwyddodd fy Ngweithiwr Cymorth i godi llawer o bwysau oddi ar fy ysgwyddau a fy nghynorthwyo pob un cam o'r ffordd. Rwyf yn awr yn gweld dyfodol i mi fy hun ac i fy merch.*

J Rwy'n rhiant sengl ac mae gennyf fab sydd yn 6 oed. Es i'r Ganolfan Galw i Mewn am Gymorth Tai gan fy mod wedi cyrraedd pen fy nhennyn yn sgil aflonyddwch gan fy nghymydog. Ceisiodd yf Ngweithiwr Cymorth wneud pob dim er mwyn datrys y broblem â'r cymydog ond parhaodd yr aflonyddwch. Rwy'n dioddef o Anhwylder Bipolar, Anhwylder Personoliaeth Ffiniol a Gorbryder ac iselder dwys a oedd yn gwaethygu.

Yr unig opsiwn oedd symud. Daeth fy Ngweithiwr Cymorth o hyd i eiddo arall ar fy nghyfer gan drefnu'r bond a'r rhent o flaen llaw gan nad oedd gennyf arian i allu symud. Cynorthwyodd i drefnu'r holl filiau a gwnaethom gynllun er mwyn fy nghynorthwyo i gyllido fy arian yn gywir. Cefais hyd yn oed gymorth i newid fy Noctor a fy nghyfieirio at Iechyd Meddwl.

Rwy'n teimlo'n ddiogel a hapus yma ac ni allaf ddiolch ddigon i fy Ngweithiwr Cymorth. Roedd hi'n wych. Byddwn i a fy mab yn parhau i fyw mewn ofn petai hi heb ein helpu.

AR Roeddwn yn ddigartref wedi i mi gael fy nhaflu allan o fy hen eiddo yn sgil ôl ddyledion rhent. Roedd fy hunanhyder yn isel ar y pryd a gallaf weld nad oeddwn yn gallu cadw fy hun yn ddiogel. Des o hyd i'r hyder i siarad am fy mhroblemau iechyd meddwl yn ystod fy asesiad tai.

Roeddwn yn lwcus i dderbyn cymorth 24 awr gan weithio tuag at allu byw'n annibynnol. Tra roeddwn yn byw yn Chaplins, gweithiais gyda fy ngweithiwr cymorth er mwyn rheoli arian, dyled, ôl ddyledion rhent, rheoli fy llety ac arwain bywyd iach ac actif. Rwyf wedi ceisio bod yn fwy ymwybodol o fy sefyllfa ac wedi dysgu y gallaf ddynodi fy syniadau fy hun ar gyfer gwelliant.

Yn sgil cymorth gan fy ngweithiwr cymorth, llwyddais i fynd i'r afael â fy mhroblemau ôl ddyledion rhent a chyflwynwyd cais ailystyriaeth i'r Adran Budd-daliadau Tai yn ymwneud â dyled gwerth £1279 a oedd yn weddill o denantiaeth flaenorol. Roedd yn gymaint o ryddhad i mi fod. Gallaf yn awr wneud ceisiadau am dai cymdeithasol unwaith yn rhagor.

Rwy'n falch i allu dweud fy mod yn gweithio tuag at ennill sgiliau mewn rheoli tenantiaeth a fy mod wedi cwblhau pob hyfforddiant tenantiaeth a

Chwrs Parod am Denantiaeth er mwyn ennill fy annibyniaeth. Rwyf wedi gwneud ymdrech i gyfranogi mewn pob gweithgaredd sydd wedi cael eu darparu gan y staff a gan asiantaethau allanol. Bu hyn yn gymorth i mi ddatblygu fy hunanhyder a chredu ynof i fy hun. Cedwaís fy hun ataf i fy hun i ddechrau ond yn awr rwyf yn ymgysylltu â phreswylwyr eraill yn yr hostel.

Rwyf wedi derbyn cymorth i ymgysylltu â phrosiect Activewoods ac wedi mynychu gweithgareddau awyr agored a dysgu sgiliau newydd. Cefais fy atgyfeirio i'r prosiect gwydnwch, Mínd ac rwyf wedi bod yn gweithio ar fy mhroblemau Gorbryder a Chelcío.

Gan fod angen llety a gynorthwyir arnaf, er mwyn symud ymlaen, cefais fy atgyfeirio i Tai yn Gyntaf ac rwy'n hapus i gael fy nerbyn ar gyfer llety symud ymlaen unwaith y bydd llety yn cael ei ddynodi.

Nawr, o'r diwedd gallaf weld dyfodol llachar ac rwyf am fod yn fy llety fy hun a derbyn cymorth cyson. Mae'r cymorth wedi chwyldroi fy mywyd ac rwy'n ddiolchgar iawn iddynt gredu ynof a rhoi cyfle i mi newid fy mywyd, er gwell.

This is a short write up of my journey since being released in April 20, and details of the support and guidance that I have been given.

I was released in April 20 to a P.I.P.E. Hostel in Leicester to which I resided for 6 months. Unfortunately, due to the pandemic the hostel was not running at full capacity but it still offered me plenty of support and guidance at all times.

The staff were very consistent in ensuring that pro-social behaviours were adhered to at all times. The clinical lead (damian) was a very nice fella who would go out of his way to ensure all was well at all times.

I left Leicester November 20 to go to Quay house approved premises, (SWANSEA) to which I stayed until Jan 21.

January 21 I arrived at Garth Villas. Due to my anxiety and depression I was very quiet for a few days but once I came around I got chatting to the staff (who I must say) are the best that I have come across. Very understanding, friendly, and good at making you feel at ease.

Diolch i chi, ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r darparwyr cymorth am rannu'r straeon hyn ac am gymorth gwych y gweithwyr cymorth sydd wedi cynorthwyo unigolion sydd wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau cymorth i wella'u bywydau.

Cysylltiadau i atgyfeirio i'r Gwasanaeth Cymorth Pobl:

Merthyr	supporting.people@merthyr.gov.uk
RhCT	Supportingpeopleteam@rctcbc.gov.uk
Pen-y-bont	bridgend.gateway@bridgend.gov.uk

Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol Kim.flower@merthyr.gov.uk

Paratowyd y ddogfen yn Chwefror 2021

**Ar ran Gwasanaethau Tai Merthyr, Pen-y-bont a RhCT a Grŵp Cydweithredol
Cymorth Tai Rhanbarthol CTM.**

